



Cyfres Stori Duw

Gwers 38

Y Brenin ar gefn asyn

Mathew 21: 1–10

Nod:

Sylweddoli bod Iesu yn frenin, ac ef yn unig sy'n haeddu ein addoliad.

Adnodau:

Mathew 21: 1–10

Cefndir:

Ar ôl tair blynedd o deithio o amgylch y wlad yn dysgu ac iacháu pobl, roedd hi'n amser i Iesu fynd i Jerwsalem. Roedd yn gwybod bod yr amser pan fyddai'n rhaid iddo farw yn nesáu. Heddiw byddwn yn edrych ar sut wnaeth Iesu fynd fewn i Jerwsalem.

Gweithgaredd:

1. Pinio'r gynffon

Bydd angen ichi brintio'r mul yn atodiad 20 ar bapur mor fawr ac y gallech (neu efallai ei brintio dros 4 tudalen), bydd angen hefyd sticeri bychan a mwgwd i'r bobl ifanc (gall sgarff weithio fel mwgwd).

Rhowch y mul i fyny ar y wal, a chael y bobl ifanc i ddod i fyny yn eu tro i geisio rhoi y 'cynffon' yn y lle cywir. Rowch y mwgwd arnynt a'u troelli ryw 3 gwaith fel nad ydyw yn rhy hawdd iddynt! Bydd pwy bynnag sy'n rhoi'r sticer agosaf i lle ddylai'r gynffon fod yn ennill. Gallwch roi gwobr iddo/iddi.

2. 'Limbo' cangen palmwydd

Bydd angen ryw 5 cangen palmwydd arnoch, gallwch eu cael o werthwyr blodau da, neu

fel arall gallwch ddefnyddio rhyw fath o ffon. Rhowch y palmwydd i orffwys rhwng dau fwrdd neu gadair i gychwyn. Rhowch gyfle i bawb wneud 'limbo' oddi tano (plygu eu cefn a'u pen yn ôl i fynd o dan y ddeilen, heb ei gyffwrdd.) Os ydy'r ddeilen yn disgyn maent allan. I'r rhai sy'n gallu ei wneud dewch a'r ddeilen i lawr ychydig a gadael iddynt drio eto (efallai y bydd rhaid gafael yn y ddeilen y tro hwn). Parhewch i fynd lawr nes mai dim ond un neu ddau sydd ar ôl yn gallu ei wneud – neu ei fod yn rhy anodd i unrhyw un ei wneud. Gallwch roi gwobr iddo/iddi.

Darllen yr adnodau:

Darllenwch chi adnodau Mathew 21: 1–10 i'r dosbarth, a gofyn i'r dosbarth ddilyn yn eu Beiblau.

Trafodaeth:

Gofynnwch a oes un o'r bobl ifanc erioed wedi bod mewn gig, cyngerdd, gêm bêl-droed neu rygbi? Gofynnwch iddynt ddisgrifio'r teimlad? Oedd hi'n ddistaw yna? Beth oedd y cefnogwyr yn ei wneud? Os cewch atebion megis, dwylo yn yr awyr, gweiddi, siantio – dyma oedd y dorff yn ei wneud i Iesu. Roeddent yn gweiddi, ac yn rhoi eu cotiau a dail palmwydd ar y llawr yn y man yr oedd o'n cerdded (yn debyg i rhoi carped coch i lawr heddiw.)

Gofynnwch a all unrhyw un weld beth oedd y peth rhyfeddol a wnaeth Iesu yn y darlleniad heddiw, mae'r cliw yn adnod 2 a 6–7. (Rhagfynegodd Iesu y byddai asyn ac ebol wedi eu clymu yn y pentref. Pan aeth y

disgyblion, gwelsant hwy yno yn union fel y dywedodd Iesu).

Pam wnaeth Iesu ddefnyddio ebol? (adnod 4, i wneud fel oedd y proffwyd wedi ddweud yn yr hen destament, ac fel y byddai'r bobl yn sylweddoli mai Iesu yw'r brenin.)

A oedd Iesu'n frenin arferol? Cymharwch y teulu brenhinol ym Mhrydain â Iesu Grist, ydych chi'n gweld unrhyw wahaniaethau? E.e. y preseb mewn stabl, ebol, palasau ayyb. Roedd Iesu yn frenin gwahanol iawn, doedd o ddim yn gweld gwerth mewn casglu eiddo a thrysor, daeth i'r byd i gasglu ac i achub pobl!

Gweithgaredd:

Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am gynifer o eiriau â phosibl i ddisgrifio'r canlynol:

Palas (e.e. crand, mawr, cyfoethog ayyb)

Asyn (e.e. brown, drewllyd, swllyd ayyb)

Dilynwyr (ffans) (e.e. swllyd, teyrngar)

Gallwch feddwl am fwy o enghreifftiau.

Roedd y bobl am i Iesu fod yn frenin ar eu gwlad, iddo eu hachub a'u rhyddhau o ormes y Rhufeiniaid. Erbyn hyn roeddent yn cael eu llywodraethu gan y Rhufeiniaid ac yn anhapus iawn ynghylch hyn. Roeddent yn gweddi 'Hosanna' i Iesu, sy'n golygu 'molwn di', ond hefyd 'achub ni'.

Nid hyn oedd gan Iesu mewn golwg, dim brenin gwleidyddol oedd Iesu, na milwr i ymladd yn erbyn Rhufeiniaid ond brenin i

achub a gwaredu'r holl fyd. Yn y gwersi nesaf fe fyddwn yn gweld beth oedd cynllun Iesu i wneud hyn.

Amser Addoli:

Gofynnwch i'r bobl ifanc beth maent hwy yn ei addoli? Gall fod yr hyn y maent yn treulio ei amser yn ei wneud, yn gwario'u pres arno neu yn ei gredu ynddo. Iesu ydy'r unig beth y gallwn ni ei addoli na wnaiff ein gadael ni i lawr, mae timau pêl droed yn colli, a bandiau yn chwalu, ond bydd Iesu yn Frenin am byth. Amen